**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 22 MEDI 2021**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: C.Clement-Williams, A.R.Lockyer, P.A.Rees, A.Wingrave, L.Jones a/ac M.Harvey

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, H.Jenkins, K.Jones, A.Jarrett, M.Shaw, R.Headon, N.Blackmore, P.Hinder, H.Jones, A.Thomas, J.Woodman-Ralph a/ac C.John

**Swyddfa Archwillio Cymru:**

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd L Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD/AU'R CADEIRYDDION**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaed datganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod gan yr aelod canlynol.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd L Jones | Parthed: Eitem 13 ar yr Agenda - Cynigion y Prosiect i Gronfa Gymunedol yr Aelodau gan fod ganddi gynnig prosiect sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad i'w ystyried yn y cyfarfod heddiw. Roedd o'r farn bod ei budd yn rhagfarnol a gadwodd y cyfarfod pan |

gyrhaeddwyd yr eitem hon.

4. **COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL A GYNHALIWYD AR 28 GORFFENNAF AC 1 MEDI 2021**

Cymeradwyo'r cofnodion a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf a 1 Medi 2021.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2021-22**

Nodi Blaenraglen Waith 2021/2022.

6. **ADRODDIAD MONITRO A DIWEDDARU'R GYLLIDEB REFENIW 2021/2022**

**Penderfyniadau:**

1.Cymeradwyo trosglwyddiadau'r gyllideb fel y nodir isod:

| **Cyf.** | **Maes Gwasanaeth** | **Trosglwyddo o £** | **Trosglwyddo I £** |
|---|---|---|---|
| AMG | Casglu sbwriel | | 100,000 |
| AMG | Gwasanaethau cymdogaethau. | 100,000 | |
| AHDGO | Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion | 62,722 | |
| AHDGO | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 70,515 | |
| AHDGO | Rheoli a Gweinyddu | | 133,237 |
| GCI | Rheoli Gofal yn y Gymuned | 61,570 | |
| GCI | Gwaith Cymdeithasol Gofal Cymunedol | | 61,570 |
| **CYFANSWM** | | **294,807** | **294,807** |

2.Cymeradwyo'r ceisiadau wrth gefn fel y nodir isod:

| **Gwerth i / (o) £** | **Wrth gefn** | **Maes Gwasanaeth** | **Rheswm** |
|---|---|---|---|
| 130,000 | Cyfartalu Iechyd yr Amgylchedd-Tai | Iechyd yr Amgylchedd | Nid oes angen tynnu'r swm gwreiddiol o'r gronfa wrth gefn ac mae angen iddo fod ar gael yn y dyfodol. |
| (75,000) | Cronfa Gydraddoli'r Amgylchedd | Parciau a Mannau Agored | Ariannu gwariant arfaethedig o fewn 2021/22 |
| (124,000) | Metal Box | Metal Box | Ariannu gwelliannau parhaus o fewn 2021/22 |
| (3,000) | Cydraddoli'r amgylchedd | Tir Anweithredol | Ariannu gwariant ar gât ale yn 2021/22 |
| (62,000) | Cydraddoli ADGO | Anghenion Dysgu Ychwanegol | Rhoi system anghenion dysgu ychwanegol newydd ar waith a ohiriwyd o 2020/21 |
| 862,147 | Cronfa Wrth Gefn Yswiriant | Yswiriant | Nododd archwiliad o Gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2020/21 fod y ddarpariaeth sy'n ofynnol i dalu am hawliadau Yswiriant wedi'i gorbwysleisio o £862,147 a bod y gronfa wrth gefn ar gyfer Yswiriant wedi'i thanddatgan gan swm cyfatebol. Mae'r addasiad hwn yn cywiro'r camddatganiad hwn. |

3.**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Cydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â throsglwyddiadau cyllidebol a cheisiadau wrth gefn a diweddaru amcanestyniadau Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/2022.

4.**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

7. **MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF 2021/22**

**Penderfyniadau:**

1.Bod y gyllideb ddiweddaredig arfaethedig ar gyfer 2021/2022, sef cyfanswm o £84.747m, gan gynnwys y newidiadau i'r gyllideb fel y'u nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael ei chyflwyno i'r cyngor i'w chymeradwyo.

2.Nodi swm y gwariant ar 31 Awst 2021.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

I gydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â throsglwyddo'r gyllideb, ailbroffilio rhwng blynyddoedd ariannol a diweddaru amcanestyniadau cyllideb y cyngor ar gyfer 2021/2022.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **MONITRO RHEOLAETH Y TRYSORLYS 2021/2022**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

9. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN CORFFORAETHOL**

**Penderfyniadau:**

1.Penderfynwyd cyflwyno'r canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

- Adroddiad Blynyddol Drafft y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020/2021 (Adroddiad Cynnydd Llawn);
- Crynodeb o Adroddiad Blynyddol y Cynllun Corfforaethol Drafft ar gyfer 2020/2021;
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2020/2021.

2.Caiff awdurdod dirprwyedig ei roi i Arweinydd y Cyngor Swyddog i wneud y fath newidiadau ag y mae eu hangen i'r Adroddiad

Blynyddol cyn ei gyhoeddi, ar yr amod nad yw'r fath newidiadau'n newid cynnwys y ddogfen a ystyriwyd gan y Cabinet yn sylweddol.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Galluogi'r cyngor i fodloni'r gofynion statudol a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Rhoddir y penderfyniadau ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

10. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL**

**Penderfyniadau:**

1.Bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019 ac Adroddiad Blynyddol 2019-2020 yn cael eu cymeradwyo.

2.Bod y Pennaeth Datblygu Dynol a Sefydliadol yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw newidiadau y gall fod eu hangen i'r Adroddiad Blynyddol cyn ei gyhoeddi, ar yr amod nad yw newidiadau o'r fath yn newid cynnwys y ddogfen a ystyriwyd gan y Cabinet yn sylweddol.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Bodloni'r gofynion statudol a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

11. **SIARTER CREU LLEOEDD**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1.Caiff Siarter Creu Lleoedd Cymru ei chyflwyno i'r cyngor i'w chymeradwyo;

2.Caiff Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ei awdurdodi i gyflwyno cais i'r Bartneriaeth Creu Lleoedd i'r cyngor ddod yn llofnodwr y Siarter.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Dangos bod y cyngor yn croesawu'r chwe egwyddor creu lleoedd ac yn ymrwymedig i'w cyflawni a'u hyrwyddo.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 12. CYNIGION PROSIECT A GYFLWYNWYD I GRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU

Ailddatganodd y Cynghorydd L Jones ei budd ar y pwynt hwn a gadawodd y cyfarfod.  Penodwyd y Cynghorydd P Rees yn Gadeirydd ar gyfer yr eitem hon yn unig.

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig, cymeradwyir y canlynol:

1.Cyflenwi pâr o byst gôl 24' x 8' newydd gyda rhwydi i Glwb Pêl-droed Blaendulais Onllwyn. Gwerth y prosiect yw £3,080.00.  Byddai'r Cynghorydd S Hunt yn cyfrannu £2,000 o'i ddyraniad o Gronfa Gymunedol yr Aelodau gyda'r £1,080 sy'n weddill yn cael ei ariannu o gronfa ariannol wrth gefn y Clwb.

2.Prynu pyst goliau annibynnol 12' x 6' rhydd-sefyll, peli hyfforddi, bagiau, bibiau, conau, citiau cymorth cyntaf a goliau codi'n gyflym ar gyfer Adran Iau Clwb Pêl-droed Tonna.  Byddai cyfanswm y gost sef £1,511.98 yn cael ei ariannu drwy ddyraniad y Cynghorydd L Jones o Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

3. Prynu a gosod llwyfan symudol gyda goleuadau, systemau Clyweledol a Sain yn y Brif Neuadd yn YGG Pontardawe.  Mae'r prosiect yn werth £24,600.  Byddai'r Cynghorydd L Purcell yn

cyfrannu £9,600 tuag at gostau'r prosiect o'i dyraniad hithau o Gronfa Gymunedol yr Aelodau. Byddai'r £15,000 sy'n weddill yn cael ei ariannu'n gyfatebol o Gronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Betws a chyfraniadau gan y Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Chyfeillion a chyllideb ddirprwyedig yr ysgol.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Cytuno ar y ceisiadau am arian a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

13. **PRYNU SYSTEM GYFARFOD HYBRID AC ADNEWYDDU SIAMBR Y CYNGOR**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Sgrinio Integredig:

1.Rhoddir cymeradwyaeth i uwchraddio Siambr y Cyngor fel y nodir ym mharagraff 18 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

2.Rhoddir cymeradwyaeth i ymrwymo i gontract gyda Public-I Group Limited at ddibenion prynu a gosod system gyfarfod hybrid fel y nodir ym mharagraff 20 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

3. Caiff astudiaeth ddichonoldeb ei sefydlu i ystyried lleoliadau amgen y gellid eu haddasu o fewn Adeiladau Dinesig fel mannau lle gellid cynnal cyfarfodydd hybrid.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

14. **CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL DE-ORLLEWIN CYMRU**

**Penderfyniadau – i'w nodi**

Bod y gwaith a wnaed mewn perthynas â sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn cael ei nodi. Bod adroddiad yn cael ei ddwyn yn ôl i'r aelodau unwaith y bydd trafodaethau wedi'u cwblhau, er mwyn i'r aelodau gymeradwyo'r trefniadau ar gyfer CBC De-orllewin Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

15. **CAMAU GWEITHREDU BRYS SWYDDOGION**

**Penderfyniadau:**

Dylid nodi'r adroddiad.

16. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**